Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynwch am:*
*Ffôn:*
*E-Bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 11 Medi 2020

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Gobeithio bod eich plant yn ymgartrefu yn yr ysgol ar ôl ychydig fisoedd trafferthus iawn oherwydd y pandemig coronafeirws.

Unwaith eto hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac am bopeth rydych wedi'i wneud i gynorthwyo eich plentyn, ysgol eich plentyn a'r Cyngor.

Mae'r gwerthfawrogiad o'r holl gynorthwywyr addysgu, athrawon ac arweinwyr yn ein hysgolion yn parhau'n gryf wrth i ni nesáu at ddychwelyd i addysg orfodol ddydd Llun. Gydag 80% o bresenoldeb ar draws ysgolion Abertawe eisoes, mae neges glir bod dychwelyd i addysg yn gweithio.

Rydym wedi bod yn gweithio gydag ysgolion fel eu bod yn gwbl barod i groesawu plant yn ôl ar gyfer tymor yr hydref gyda'r mesurau diogelwch priodol ar waith. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn ysgolion er mwyn lleihau'r posibilrwydd o drosglwyddo'r coronafeirws, a lleihau unrhyw risg i ddisgyblion a staff, gan gynnwys asesiadau risg, mwy o lanhau a golchi dwylo'n rheolaidd, cadw pellter cymdeithasol a grwpio dysgwyr. Mae'n bwysig cofio nad yw'r coronafeirws wedi diflannu, ac mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel

Nid yw'n dymor hydref arferol. Mae asesiad risg yn cael ei gynnal yn ein hysgolion ar gyfer y tasgau mwyaf sylfaenol, ac nid yw digwyddiadau allweddol fel nosweithiau rhieni a chyngherddau yn bosibl ar hyn o bryd. Ymunwch â mi, os gwelwch yn dda, i roi eich cefnogaeth i'n penaethiaid a staff yr ysgol wrth iddynt wneud penderfyniadau anodd i sicrhau diogelwch ein holl ddisgyblion

Mae'r trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith gan ysgolion yn hollbwysig ac ni allaf bwysleisio'n ddigon cryf pa mor bwysig yw hi ein bod ni i gyd yn dilyn y mesurau hyn. Yn benodol, hoffwn atgoffa rhieni i ddilyn y trefniadau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol wrth ollwng a chasglu eich plant o'r ysgol.

Gan fod pob disgybl yn dychwelyd yr wythnos nesaf, mae'n hanfodol bod rhieni'n cadw eu pellter er mwyn osgoi cyswllt agos a throsglwyddo'r feirws o bosibl.

To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Gofynnaf i chi wneud y canlynol:

- Cyrhaeddwch yn brydlon i'ch slot dynodedig.
- Sefwch 2 fetr oddi wrth deuluoedd eraill.
- Gadewch yn brydlon a symudwch i ffwrdd o'r ysgol cyn gynted ag y byddwch wedi gollwng eich plentyn.
- Peidiwch ag ymgynnull y tu allan i gatiau'r ysgol gan fod hyn ei gwneud yn anodd i deuluoedd eraill sy'n cyrraedd ar amseroedd gwahanol.

Hoffwn eich atgoffa hefyd o'r trefniadau os yw eich plentyn yn sâl. Ni ddylech, dan unrhyw amgylchiadau, anfon eich plentyn i'r ysgol:

- os yw'n teimlo'n sâl, gydag unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl) neu mae wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.
- os yw'n byw mewn cartref gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael prawf COVID-19 positif yn ystod y 14 diwrnod diwethaf.
- ar ôl dychwelyd o wlad sydd ar y rhestr cwarantîn.

Noder o dan yr amgylchiadau hyn nad oes disgwyl i'r ysgol fod yn darparu gwaith i'r plant hyn er bod Ysgol Rithwir Abertawe yn parhau'n fyw ac yn llawn adnoddau os hoffech ei ddefnyddio yn www.swanseavirtualschool.org.

Mae gwybodaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru yn dangos bod y feirws yn parhau i ledaenu mewn cymunedau ledled y wlad gyda cyfnod clo yng Nghaerffili a fydd yn mynd ymlaen tan o leiaf ddiwedd y mis a blynyddoedd ysgol gyfan yn gorfod hunan ynysu am bythefnos yng Nghasnewydd. Mae'n hanfodol ein bod yn cadw at y canllawiau a'r rheolau sy'n debygol o gael eu cryfhau yn ystod y dyddiau a'r wythnosau nesaf.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i geisio atal y feirws ac i osgoi cynnydd sydyn yn ein cymuned a'r posibilrwydd o ailgyflwyno cyfyngiadau symud.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro